**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus John Glen AS
Prif Ysgrifennydd y Trysorlys

27 Medi 2023

Annwyl John,

Datganiad yr Hydref gan Lywodraeth y DU

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 13 Medi 2023, buom yn archwilio goblygiadau bwriad Canghellor y Trysorlys i gyhoeddi ei Ddatganiad yr Hydref ar 22 Tachwedd 2023 gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Rebecca Evans AS.

Byddwch yn ymwybodol bod amseriad digwyddiadau cyllidol yn San Steffan yn cael effaith sylweddol ar ddyddiad cyhoeddi cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i wthio'n ôl eleni i 19 Rhagfyr. Mae'r diffyg amser sydd ar gael o ganlyniad i graffu'n effeithiol ar y gyllideb yn amharu'n ddifrifol ar allu'r Senedd i ymgysylltu â'i randdeiliaid a chraffu'n effeithiol ar benderfyniadau gwariant Llywodraeth Cymru.

Rydym yn siomedig felly na chafodd prosesau cyllidebol y Senedd a'r gwledydd datganoledig eu hystyried unwaith eto wrth bennu'r dyddiad hwn. Mae hefyd yn destun gofid, fel y nododd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wrthym mewn tystiolaeth ar 13 Medi, mai bach iawn yw'r ymgysylltu rhwng y Trysorlys a Llywodraeth Cymru ar lefelau cyllid datganoledig cyn digwyddiad cyllidol y DU.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Trysorlys ystyried y materion uchod pan fydd yn ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig yn y dyfodol, a byddem yn croesawu deialog barhaus gyda chi ar y materion hyn a materion eraill.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.